

# STRATEGAETH Y RHAGLEN CYMORTH TAI

2022-2026

Golwg strategol sengl ar ymagwedd Caerffili tuag at Atal Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth Tai.

Ein gweledigaeth ar gyfer digartrefedd byr, prin ac untro ar gyfer Caerffili.

# Cynnwys

Rhagair ........ 0

1. Cyflwyniad ........ 0

   1a Diben y Strategaeth ........ 0

   1b Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi 0

   1c Gweledigaeth ac egwyddorion ........ 1

2. Asesiad Anghenion ........ 0

   2a Proses Asesu Anghenion ........ 0

   2b Canfyddiadau allweddol ........ 0

   2c Casgliad ........ 2

3. Blaenoriaethau Strategol ........ 1

   Blaenoriaeth Un – Mabwysiadu Model Ailgartrefu Cyflym ........ 1

   Blaenoriaeth Dau – Rhoi Terfyn ar Gysgu Allan ........ 3

   Blaenoriaeth Tri – Ymyrraeth Gynnar ac Atal Wedi'i Dargedu ........ 3

   Blaenoriaeth Pedwar – Buddsoddi mewn Datblygu Gweithlu ........ 4

4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ........ 5

   4a Rhanddeiliaid yr Ymgysylltwyd â Hwy ........ 5

   4b. Adborth rhanddeiliaid ........ 1

5. Asesiadau Effaith ........ 3

   5a Proses Asesu Effaith ........ 4

   5b Canfyddiadau allweddol ........ 4

6. Gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth ........ 5

   6a Gweithio gyda phartneriaid ........ 5

      Gweithio gydag Iechyd ........ 5

      Gofal Cymdeithasol ........ 7

      Cyfiawnder Troseddol ........ 9

      Eraill ........ 9

   6b Ffynonellau cyllid ........ 11

   6c Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso ........ 11

   Atodiad A ........ 0

   Atodiad B ........ 3

Atodiadau ........ 4

DRAFT

## Rhagair

*Mae'n bleser gennyf rannu Rhaglen Cymorth Tai Caerffili 2022-2026 gyda chi. Mae'r rhaglen nid yn unig yn adeiladu ar gyflawniadau sylweddol gwasanaeth cymorth tai'r awdurdod ond hefyd yn nodi'r gwaith a wnaed eisoes i atal a mynd i'r afael â digartrefedd ledled Caerffili. Mae darparu gwasanaethau cymorth tai ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ganolog i'n nod o ymyrryd yn gynnar, atal digartrefedd a sefydlogi sefyllfaoedd tai i lawer o bobl. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod pob dinesydd, waeth beth fo'i ddaliadaeth, yn cael mynediad cyfartal at gymorth a llety o safon i ddiwallu anghenion, sy'n hanfodol i atal argyfwng pellach. Mae'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i ehangu ei wasanaethau tai a chymorth i ddiwallu anghenion ystod eang o bobl wrth weithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni hyn. Mae'r pandemig parhaus a'r newidiadau i ddeddfwriaeth wedi hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, gan ddangos ei ymrwymiad i gydweithio a chyflawni nodau Cymorth Tai pawb. Mae'r strategaeth hon a'r ddogfen datganiad o anghenion sy'n cyd-fynd â hi yn dangos ein dealltwriaeth o'r Fwrdeistref Sirol a bydd ei gweithredu yn helpu i gyflawni gwelliant parhaus yn y Gwasanaethau Cymorth Tai.*

*Y Cyng. Shayne Cook*

## 1. Cyflwyniad

### 1a Diben y Strategaeth

Diben y strategaeth yw amlinellu un cyfeiriad strategol ar gyfer dull awdurdodau lleol o ymdrin ag atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai am y pedair blynedd nesaf, 2022-2026, gan ystyried y gallai fod llawer o newidiadau ar hyd y daith yn ystod y cyfnod hwn.

Ei nod yw adnabod ac amlinellu meysydd blaenoriaeth ac egwyddorion allweddol i'r Awdurdod Lleol a'r holl bartneriaid eu hystyried a'u mabwysiadu, yn dilyn tystiolaeth helaeth o'i asesiad o anghenion a chanfyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r strategaeth yn ystyried sut mae'r blaenoriaethau a'r camau cyflawni yn cefnogi gweledigaeth a nodau Llywodraeth Cymru gyda manylion am sut rydym yn cynllunio'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i symud i ddull ailgartrefu cyflym.

Mae'r strategaeth hon yn bodloni'r swyddogaethau digartrefedd statudol presennol, a ariennir drwy'r Grant Setliad Refeniw o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r strategaeth yn cynnwys Strategaeth Digartrefedd Awdurdodau Lleol 2018-2022 sydd wedi'i hadolygu a'i diweddaru.

---

*CRYNO, PRIN, UNTRO*

---

### 1b Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Mae digonedd o gyd-destun deddfwriaethol a pholisi i gefnogi'r Rhaglen Cymorth Tai, a'r ddeddfwriaeth allweddol yw Deddf Tai (Cymru), 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae yna lawer o rai eraill sydd i gyd yn effeithio

DRAFT

ar weithrediad y strategaeth gyda'r ffocws pob un ar atal digartrefedd, gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau yn ôl yr angen.

O ran y cyd-destun lleol a rhanbarthol, unwaith eto mae ystod eang o ffynonellau ar gael gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cysgu Allan, Cynllun Corfforaethol Caerffili sy'n canolbwyntio ac yn ategu'r strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ynghylch amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, trawsnewid gwasanaethau i ddod yn fwy effeithlon a chyda mwy o ffocws ar ymgysylltu â chwsmeriaid a modelau cyflawni amgen. Mae'r strategaeth yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cysgu Allan fel rhanddeiliad allweddol ar draws y ddau; deall yr achos sylfaenol a sicrhau bod gwasanaethau ar gael i ddiwallu ystod o anghenion.

Am fanylion llawn ar sut mae pob polisi a gweithred berthnasol yn effeithio ar y strategaeth, gweler Atodiad 1.

## 1c Gweledigaeth ac egwyddorion

**Gweledigaeth**

*Mae gan holl ddinasyddion Bwrdeistref Caerffili gartrefi diogel i fyw ynddynt, gallant gael mynediad hawdd at wasanaethau cymorth integredig i ddiwallu anghenion unigol, atal digartrefedd a sicrhau bod pob bywyd yn iach, yn llwyddiannus ac yn annibynnol.*

**Egwyddorion**

1- Mae mynediad at wasanaethau cymorth yn gyflym ac yn dryloyw a bydd partneriaid yn gweithio i atal digartrefedd lle bo modd
2- Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gan bawb fynediad at lety teg ac addas sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn ynni-effeithlon
3- Bod mynediad at gyngor a chymorth ar gael yn hawdd ar draws nifer o lwyfannau er mwyn i bobl allu deall pa hawliau sy'n ymwneud â thai sydd ganddynt a pha wasanaethau cymorth sydd ar gael i'w galluogi i gael mynediad at dai o ansawdd da a chymorth cysylltiedig.
4- Mae'r llwybrau cyfeirio perthnasol wedi'u sefydlu i ganiatáu mynediad at wybodaeth fel bod pobl yn cael eu grymuso, lle bo hynny'n ymarferol, i gefnogi eu hunain

DRAFT

## 2. Asesiad Anghenion

### 2a Proses Asesu Anghenion

Mae'r Awdurdod Lleol wedi llunio asesiad anghenion cynhwysfawr trwy gasglu gwybodaeth a thystiolaeth o'r unigolion a'r gwasanaethau yn y Fwrdeistref Sirol o ystod eang o ffynonellau, gan ddefnyddio'r data hwn i ddeall yr anghenion sy'n newid yn barhaus i atal digartrefedd a darparu Gwasanaethau Cymorth Tai.

Mae'r broses a gynhaliwyd yn cynnwys ymchwil bwrdd gwaith megis dadansoddi ffynonellau lleol a rhanbarthol, yn ogystal â chyfweliadau, cynnal arolygon gan randdeiliaid ac archwilio astudiaethau achos amrywiol.  Mae ffocws y sylfaen dystiolaeth ar ddata canlyniadau allweddol ac asesiadau amrywiol o angen.

Dyma ddolen i'r ddogfen Datganiad o Angen. [I'w weithredu maes o law, dogfen wedi'i hatodi yn y cyfamser]

### 2b Canfyddiadau allweddol

Mae'r dystiolaeth o'r canfyddiadau yn cefnogi ein gofyniad am




DRAFT

Mae tystiolaeth yn cynnwys

- Mae anghenion lluosog a chyd-ddigwydd yn cynyddu ac mae gan 70% ohonynt anhwylder meddyliol cyffredin, ac Iechyd Meddwl yw ein hangen arweiniol uchaf ar draws Cymorth Tai.
- Derbyniwyd 66% o atgyfeiriadau ar gyfer Llety Iechyd Meddwl a 64% ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. Y prif reswm dros wrthod atgyfeiriadau ar draws ein llety â chymorth yw Anghenion Cymhleth, neu Ddiagnosis Deuol, mae angen ar rai pobl gwasanaethau a arweinir gan Ymatal a mewnbwn gan gydweithwyr Iechyd gan gynnwys gofal lliniarol.
- Roedd adborth am y gwasanaethau yn gadarnhaol ar y cyfan gydag unrhyw adborth negyddol yn ymwneud â diffyg darpariaeth addas - h.y. pobl mewn gwely a brecwast oedd angen lefelau uwch o wasanaeth a'r rhai mewn gwasanaeth oedd angen math gwahanol a mwy penodol o ddarpariaeth ar gyfer diagnosis deuol.
- Nifer yr achlysuron a fethwyd o fewn darpariaethau â chymorth neu adsefydlu oherwydd nodau anaddas neu anghynaladwy
- Nifer y rhai sy'n cysgu allan sy'n disgyn rhwng gwasanaethau (Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau) gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y naill wasanaeth na'r llall
- Roedd adborth am y gwasanaethau yn gadarnhaol ar y cyfan gydag unrhyw adborth negyddol yn ymwneud â diffyg darpariaeth addas - h.y. pobl mewn gwely a brecwast oedd angen lefelau uwch o wasanaeth a'r rhai mewn gwasanaeth oedd angen math gwahanol a mwy penodol o ddarpariaeth ar gyfer diagnosis deuol yn benodol.

Mae addasu Gwasanaethau Cymorth yn ôl yr Angen yn ofyniad arall; cynyddu ymyrraeth gynnar ac atal wedi'i dargedu; cynyddu cymorth iechyd meddwl a gwella mynediad at wasanaethau
Mae tystiolaeth yn cynnwys

- Mae 42% o'r gwariant ar Wasanaethau Cymorth yn ôl yr Angen, gyda 15% ar gyfer Iechyd Meddwl a 10% ar gyfer generig sy'n cynnwys Allgymorth Digartrefedd
- Canlyniadau yn dangos cynnydd mewn Gwasanaethau i Deuluoedd, Iechyd Meddwl a gwasanaethau generig
- Pobl 16-64 oed yw'r band oedran uchaf yng Nghaerffili
- Gweithwyr argyfwng yn gweithio hyd eithaf eu gallu yn gyson
- Mae atgyfeiriadau'n cynyddu – cynnydd o 92% yn yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar Ionawr 20 o'i gymharu ag Ionawr 21 a chynnydd o 50% rhwng Tachwedd 2020 a 2021
- Mae canlyniadau yn dangos cynnydd mewn Gwasanaethau i Deuluoedd, Iechyd Meddwl a'n gwasanaethau generig
- Hyd arhosiad cynyddol o fewn Llety Dros Dro ond cynnydd yn nifer y bobl sy'n cynnal eu llety'n annibynnol

Crynodeb o ganfyddiadau/materion allweddol eraill a nodwyd:

- Pobl 16-64 oed yw'r band oedran uchaf yng Nghaerffili (wedi cyfuno Pobl Hŷn i Generig)
- Mae gan Gaerffili gyfran uwch na'r cyfartaledd o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is gyda thair ward yn y 7 uchaf (cynnydd mewn gweithwyr cymorth daearyddol ac argyfwng)
- Mae 62% o drigolion o oedran gweithio, 75% yn economaidd weithgar, mae hawliadau budd-dal a diweithdra wedi gostwng ar draws Caerffili gyda nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn ddi-newid ar 0.5% yn 2021. Mae gan 16% Alwedigaeth broffesiynol neu dechnegol
- Mae Caerffili wedi gweld cynnydd o 15% yn ei chyflog gros wythnosol ar gyfer gweithwyr llawn amser ac mae gan Gymoedd Gwent gynnydd uwch na'r cyfartaledd yn incwm gwario gros aelwydydd o 10.0% ers 2015.
- Mae plant oedran ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant Blwyddyn 11 wedi cynyddu ledled Caerffili, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11.

DRAFT

- Mae iechyd cyffredinol y boblogaeth yn peri pryder gyda 63% o oedolion dros eu pwysau, 40% yn yfed mwy na’r canllawiau bob dydd a’r ganran isaf o bobl yn bwyta pump neu fwy o ddognau ffrwythau neu lysiau.
- Roedd adborth rhanddeiliaid yn canolbwyntio'n bennaf ar un maes - Diffyg tai fforddiadwy addas, yn benodol llety person sengl.
- Mae argaeledd adnoddau staffio yn peri pryder

Mae ffynhonnell y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Infobasecymru.net
- NOMIS
- ONS
- Data Tîm Cefnogi Pobl – atgyfeiriadau, porth, monitro
- Data darparwyr – Rhyddhau o'r Ysbyty
- Data Digartrefedd a Thai Lleol
- Canlyniadau
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Asesiad Lles Awdurdod Lleol
- Gyrfa Cymru
- Trussell Trust.org
- Data Anghenion Darparwyr
- Malc
- Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth
- Adborth Rhanddeiliaid
- Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent (bydd canfyddiadau asesiad 2020 yn cael eu diweddaru cyn gynted ag y caiff y ddogfen ei chyhoeddi.)

## 2c Casgliad

I gloi, rydym yn deall lle mae ein hanghenion ar hyn o bryd a beth sydd angen i ni ei newid er mwyn cyrraedd y lle y mae angen i ni fod - mae yna lawer o rwystrau ar hyd y ffordd ac nid yw'r rhain yn rhai y gellir eu datrys dros nos neu yn y tymor byr. Gall adeiladu tai ar gyfer anghenion cyffredinol gymryd blynyddoedd, mae llety sy'n addas ar gyfer y rhai ag anghenion cronig neu gymhleth wedi cymryd hyd yn oed yn hirach o'r blaen ac felly mae angen inni oresgyn y problemau cynllunio a chyfathrebu â'r cymunedau ynghylch yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Mae’n bwysig ein bod yn dangos sut y gall unigolion fyw’n llwyddiannus o fewn cymuned os ydynt yn cael y lefelau cywir o ofal a chymorth.

Er mwyn diwallu anghenion yn llwyddiannus, fel y nodir yn yr asesiad hwn, bydd angen i ni weithio ar y cyd a mynd i'r afael â'r pryder parhaus sy'n ymwneud â staff, gan gynnwys cadw'r gweithlu presennol a denu llafur newydd. Trwy rannu gwybodaeth a sgiliau, wedi'u gosod mewn dull cyflawni gwasanaeth cyfannol, bydd yn darparu'r gwasanaethau gorau posibl, yn atal digartrefedd ac yn cynnal cartrefi trwy rymuso'r rhai yn ein cymuned.

DRAFT

## 3. Blaenoriaethau Strategol

Mae pedair Blaenoriaeth Strategol glir ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ceir manylion ychwanegol yn Atodiad A sy'n disgrifio camau gweithredu allweddol

**1. Mabwysiadu Dull Ailgartrefu Cyflym**

- Cynyddu'r Cyflenwad Tai
- Adolygu Llety â Chymorth Dros Dro
- Lleihau Llety Argyfwng
- Ymgymryd â Dull Aml-Asiantaeth

**2. Rhoi Diwedd ar Gysgu Allan**

**3. Cynyddu Ymyrraeth Gynnar ac Atal Wedi'i Dargedu**

**4. Buddsoddi mewn Datblygu Gweithlu**

DRAFT

### Blaenoriaeth Un – Mabwysiadu Model Ailgartrefu Cyflym

Fel rhan o gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, bydd y flaenoriaeth gyffredinol hon yn mynd i'r afael â nifer o is-weithredoedd isod; bydd manylion ar gael wrth i'r Cynllun Trosiannol Ailgartrefu Cyflym gael ei ddatblygu.

Er mwyn cyflawni ailgartrefu cyflym, rydym wedi ystyried y ddarpariaeth bresennol ac wedi dod i'r casgliad y bydd darpariaeth anghenion cyffredinol ychwanegol yn allweddol i fabwysiadu'r model hwn. Mae angen i nifer fawr o bobl sydd mewn llety â chymorth ar hyn o bryd symud i lefel lai o gymorth neu i'w tai annibynnol hirdymor eu hunain, mae'r ddau angen lefelau uwch o dai anghenion cyffredinol i gyflawni'r nod hwn.  Mae angen llety ar draws holl leoliadau'r Fwrdeistref Sirol, yn bennaf ar ffurf llety un person sy'n fforddiadwy, o fewn pellter i amwynderau, trafnidiaeth, cyflogaeth a ffrindiau a theulu cefnogol presennol ac nid bob amser, lle mae gennym stoc gymdeithasol ar hyn o bryd.



Mae'n amlwg o'r datganiad o anghenion bod nifer fawr o bobl yn methu â chael mynediad i'n llety â chymorth presennol, rydym yn ystyried dros dro yr opsiwn o gynyddu lefelau staffio i reoli risgiau ac anghenion y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, heb achosi unrhyw effaith negyddol ar y trigolion presennol hynny.

Mae angen inni ddeall y meini prawf i gael mynediad at gynlluniau a'r rhesymau pam nad yw pobl yn gallu cael mynediad at y rheini hyd yma. Mae gofyniad hirdymor am gynllun "gwlyb" penodol a arweinir gan ymatal a phrosiectau gofal cymhleth penodol neu ddiagnosis deuol i ddiwallu anghenion y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at brosiectau presennol ar hyn o bryd. Mae nifer o sesiynau adborth rhanddeiliaid hefyd wedi amlygu'r bwlch.

Ar hyn o bryd mae gennym lety a oedd yn ganolfan asesu yn wreiddiol, ond dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r tai argyfwng hyn wedi dod yn sefydlog yn eu tenantiaid, a hynny'n bennaf oherwydd diffyg llety person sengl sydd ei angen yn y Fwrdeistref Sirol. Cam gweithredu allweddol fydd dod â'r ddarpariaeth hon yn ôl i'r ganolfan asesu amlasiantaeth sydd ei hangen arnom wrth ystyried yr un camau ar gyfer y ddarpariaeth tai argyfwng presennol arall sydd gennym i ddarparu gweithgareddau'r ganolfan asesu ar draws y Fwrdeistref Sirol a lleihau'r angen i unigolion deithio. Y flaenoriaeth allweddol i gyflawni hyn yw symud ymlaen y rhai sy'n preswylio ar hyn o bryd.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau gyda'n timau Datblygu a Strategaeth Tai i ystyried gwahanol ddarnau o dir a fyddai'n addas i adeiladu arnynt, yn ogystal â gweithio gyda'n partneriaid allanol i adnabod datblygiadau presennol ar gyfer adnewyddu ac ailfodelu.

Bydd cam allweddol yn cynnwys dadansoddi gwybodaeth o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol pan fydd wedi'i gwblhau.

Yn ogystal â llety cwbl newydd, byddwn yn adolygu ein gwasanaethau presennol, ar gyfer rhai o'r gwasanaethau byddwn yn gallu ailfodelu trwy ddiwygio lefelau staffio presennol a chynyddu derbyniad atgyfeiriadau. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen arnom ar gyfer nifer yr unedau y bydd eu hangen yn y dyfodol.

Ein nod yw ystyried ein stoc tai argyfwng presennol fel llety posibl ar gyfer ail-bwrpasu, wrth leihau'r angen am y tai argyfwng y gallwn ddatblygu darpariaeth seiliedig ar lety ar gyfer y rheini â phroblemau alcohol cronig sy'n cyfyngu ar eu bywydau, y rheini â gofal cymhleth a diagnosis deuol nad ydynt ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer gwasanaethau presennol

Gyda phortffolio anghenion cyffredinol cynyddol a thai trosiannol, gallwn symud y rhai nad oes angen amgylcheddau â chymorth arnynt mwyach i'r llety o'u dewis, a byddwn yn eu tro yn defnyddio'r lleoedd gwag i'r rhai mewn tai argyfwng gymryd eu lle ac elwa ar y staff sydd ar gael i helpu i'w cefnogi i sicrhau tai annibynnol yn y dyfodol agos.

Gan weithio gyda phartneriaid allweddol megis Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym wedi gweld cynnydd mewn cadw tenantiaethau llety â chymorth yn llwyddiannus yn ogystal â chadw tenantiaethau annibynnol yn yr hirdymor yn llwyddiannus. Mae cydweithredu gan gydweithwyr yn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi ein galluogi i weithio drwy achos digartrefedd, nid yn unig yn cefnogi'r unigolyn hwnnw ond hefyd yn defnyddio'r data i lywio ymyriadau ac atal yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd rydym yn comisiynu nifer o wasanaethau ar y cyd rhwng Cefnogi Pobl, Tai a Gwasanaethau Plant. Ein nod yw adeiladu ar y dull cyfannol hwn a chomisiynu prosiectau pellach ar y cyd, fel y crybwyllwyd uchod, dim ond gyda chomisiynu uniongyrchol rhwng nifer o bartneriaid y bydd y gofyniad am dai "Gwlyb" a Arweinir gan Ymatal a Gofal Cymhleth/Diagnosis Deuol yn gyraeddadwy; Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Y cynllun yw datblygu sgiliau'r holl staff a rhannu'r wybodaeth hon gyda phob un – bydd argymhellion ymweliadau cychwynnol ar y cyd yn cyflawni ein nod i unrhyw un mewn gwasanaeth ddweud eu stori, ac ailadrodd eu trawma unwaith yn unig.

## Blaenoriaeth Dau – Rhoi Terfyn ar Gysgu Allan

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â chysgwyr allan sydd wedi hen ymwreiddio. Sut y gall ein cymorth ddarparu mesurau arloesol ac ataliol. Mae'n amlwg bod yna gysgwyr allan sydd wedi hen ymwreiddio yn y Fwrdeistref Sirol, mae gennym dîm allgymorth gweithgar sy'n gwasanaethu'r Fwrdeistref Sirol gyfan gan wneud yn siŵr bod unrhyw unigolion yn cael eu cefnogi a bod darpariaeth ar eu cyfer yn ôl yr angen. Hyd yn hyn eleni rydym wedi rhoi cartref i tua 40 o bobl sy'n cysgu allan o'r stryd drwy'r tîm hwn ac mae'r partneriaethau a grëwyd gyda Gwerthwyr Tai a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys y ddarpariaeth Tai Cymdeithasol wedi cynorthwyo gyda llwyddiant y rhain.

Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys gwella mynediad at lety, fel uchod, mae angen i ni gynyddu'r llety i bobl sengl ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae angen i ni hefyd ddarparu mynediad at lety fforddiadwy yn ogystal â gwella cyswllt corfforol â'n timau, nid yn unig yn ystod y dydd ond yn ôl yr angen sy'n cynnwys penwythnosau a thu allan i oriau. Cam gweithredu allweddol fydd cwmpasu'r grŵp cleientiaid presennol, sefydlu'r rhesymau dros eu cysgu allan a nodi sut y gallwn liniaru'r rhain. Cam gweithredu arall yw cynyddu ymweliadau ar y cyd â'r rhai sy'n cysgu allan sydd wedi hen ymwreiddio gydag aelodau o'r tîm Atebion Tai, cydweithwyr yn Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS), Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Arbenigol Gwent (GSSMS) a Thai yn Gyntaf i ddarparu gwasanaeth cyfannol yn ogystal â pharhau â'r cydweithio rhyfeddol yr ydym eisoes wedi'i ddechrau gyda'r Gwasanaeth Meddygon Teulu Estynedig yn benodol ar gyfer unigolion digartref.

Ystyrir y meini prawf ar gyfer ein llety â chymorth a llety dros dro presennol er mwyn deall y rhesymau dros droi allan o'r blaen ac ati ac i adnabod a dileu unrhyw rwystrau i gael mynediad at hyn a'r gwasanaethau cymorth.

Bydd gweithio gyda pherchnogion eiddo preifat, trwy ein prosiect Allweddi Caerffili ac yn uniongyrchol gyda Gwerthwyr Tai yn allweddol, mae llety fforddiadwy i ddynion sengl sy'n aml yn atal yr unigolion hyn rhag cael mynediad llwyddiannus i lety. Ein nod yw eu cynorthwyo tra mewn llety dros dro i gael hanes rhentu cadarnhaol a thystlythyr ar gyfer perchnogion eiddo wrth symud ymlaen

## Blaenoriaeth Tri – Ymyrraeth Gynnar ac Atal Wedi'i Dargedu

Er bod ymyrraeth gynnar ac atal wedi'i dargedu yn ehangach na Chymorth Tai, mae'n flaenoriaeth allweddol cryfhau gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gweithio ar y cyd ag ystod o bartneriaid i dargedu carfannau penodol. I gyflawni hyn byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaethau troseddwyr, gwasanaethau plant a chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Ar hyn o bryd mae gennym seiliau cadarn ar gyfer gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn y gwasanaethau troseddwyr ac mae camau allweddol yn cynnwys dychwelyd i'n ffordd o weithio cyn y pandemig lle'r oedd gennym Staff Cymorth Tai wedi'u lleoli yn y carchardai, a oedd yn gallu darparu cymorth cyn rhyddhau i wella'r sefyllfa dai i bawb sy'n gadael dalfa. Bydd hyn yn dychwelyd yn fuan a byddwn yn parhau i wella'r staff sy'n gallu cael mynediad i'r carchar a'i fynychu. Ar y cyd â hyn, rydym wedi bod yn cynorthwyo cydweithwyr i ddarparu data am yr angen am dai ar gyfer gwasanaethau megis Adeiladau Cymeradwy ac yn parhau â'n gwaith o adnabod tai addas ar gyfer y rhai sy'n dod i'r Fwrdeistref Sirol.

Ar hyn o bryd mae gennym ddarpariaeth llety sylweddol sy'n benodol i bobl ifanc; mae'r bwlch yn ymwneud â darpariaeth frys, darpariaeth asesu tymor byr a'r rhai ag anghenion sylweddol y tu hwnt i gymorth sy'n ymwneud â thai. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at adnoddau staff ychwanegol o fewn prosiect llety â chymorth sydd eisoes yn bodoli, sydd wedi darparu gweithgareddau y tu hwnt i delerau ac amodau'r Grant Cymorth Tai. Mae'r gwasanaeth cyfannol hwn

DRAFT

yn dal yn gynamserol ac rydym yn dysgu mwy am asesu anghenion cyn dyrannu yn ogystal â sut y gallwn ddiwallu anghenion penodol y garfan hon.

Rydym wedi adnabod bod angen i Weithwyr Cymorth Tai a Gweithwyr Atebion Tai weithio’n fwy cydweithredol ac felly rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer sy’n adnabod y gweithwyr sy’n ymwneud â phob unigolyn ac sy’n caniatáu dull mwy cydgysylltiedig o gefnogi, gan hyrwyddo gwell cyfathrebu ac felly gwella canlyniadau atal. Trwy fonitro'r prosiectau llety dros dro, mae'n amlwg nad oes angen y lefel uchel o gefnogaeth a ddarperir o fewn y darpariaethau hyn ar lawer o unigolion. Bydd adnabod cymhellion ariannol a dulliau o symud ymlaen yn gam gweithredu allweddol i bawb dan sylw.

## Blaenoriaeth Pedwar – Buddsoddi mewn Datblygu Gweithlu

Mae ein staff yn allweddol - mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o'u cadw a denu pobl newydd i'r sector. Fel comisiynwyr, mae angen inni wella’r ddealltwriaeth o’r rôl unigryw hon a helpu i hyrwyddo’r sector a’i gyflawniadau. Un ffordd o gyflawni hyn yw adeiladu ar y vFair (llwyfan digwyddiadau rhithiol) yr ydym wedi'i drefnu'n ddiweddar a chael mynediad at lawer o'r staff ymroddgar asiantaeth neu dai dros dro a chymorth sydd wrthi'n chwilio am waith.

Fel grym i greu integreiddio a chydweithio byddwn hefyd yn dod â staff o wahanol sectorau ynghyd i ddeall rolau ac iaith ei gilydd, gan wella eu sgiliau a'u gwybodaeth a galluogi darpariaeth gwasanaeth cynt a mwy effeithiol i bawb. Er mwyn cyflawni hyn bydd y camau nesaf yn cynnwys rhannu darpariaethau ac amgylcheddau ar draws partneriaid; mae hyn yn cynnwys staff Cymorth Tai sydd wedi'u lleoli yn Hwb Integredig Dechrau'n Deg, staff Iechyd wedi'u lleoli mewn darpariaeth Digartrefedd, staff Cymorth Tai a staff Tai o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol yn rhannu lleoliadau cymunedol i ddarparu gwasanaeth cyfannol yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Integreiddio staffio ar draws llety a chymorth yn ôl yr angen.

Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys adnabod rolau arbenigol; mae gennym ni weithwyr ymroddedig eisoes mewn cymunedau amrywiol, gan gynnwys gwasanaethau argyfwng a staff sy’n mynychu digwyddiadau penodol fel cyfarfodydd Hwb y Lluoedd Arfog. Rydym yn bwriadu rhyngweithio ymhellach ac adlinio rolau ar draws Tai a Chymorth i ddarparu llwybr hyblyg, ond byr, i mewn i wasanaethau, yn benodol ar gyfer y rhai sy'n gadael sefydliadau megis carchar neu ysbyty.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno nifer o weithwyr penodol ar draws ein darpariaethau llety sy’n cynnwys cymorth cyn ac ar ôl tai er mwyn darparu’r gwasanaeth di-dor parhaus hwnnw, gan leihau’r angen i unigolion ail-ddweud eu straeon ac, o’r herwydd dioddef trawma ail-fyw trawma'r gorffennol. Mae hyn yn ei dro yn lleihau gwaith papur a baich gweinyddol. Mae comisiynu gwasanaethau yn y modd hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau dderbyn gwasanaeth cyson y byddant yn cael y budd mwyaf ohono, gan eu hannog i feithrin perthnasoedd a chydberthynas i'w galluogi i deimlo'n ddiogel i rannu sut y gallwn gefnogi.

Mae hyfforddiant yn greiddiol i gynnal gweithlu mwy effeithiol, ac mae hyfforddiant parhaus, wedi'i ddiweddaru yn greiddiol i'r holl fanylebau darparu gwasanaeth, ac rydym yn cefnogi ein darparwyr i gael mynediad at gyfradd uchel o bresenoldeb ym mhob cyfle hyfforddi a sicrhau cyfradd presenoldeb uchel.

Ar hyn o bryd mae o leiaf 23 o swyddi gwag ar draws y gwasanaeth, mae 9 darparwr eisoes wedi gorfod defnyddio staff wrth gefn ac yn teimlo “nad oedd ganddyn nhw unrhyw ddewis i wneud hyn, yn enwedig ar gyfer staff effro gyda'r nos a dyblu cyflenwi ar gyfer staff ” dywedon nhw hefyd “Mae’r cyflenwad dros y Nadolig yn bryder mawr”. Fodd bynnag, cafwyd rhai ymatebion cadarnhaol gan gynnwys “mae wedi gweithio'n dda i ni, mae'r aelod o staff yn wych, a byddwn yn cynnig swydd lawn amser”. Dywedodd eraill ei bod yn “gynyddol anodd denu pobl i’r sector pan nad yw cyflogau’n cymharu’n ffafriol” felly byddwn yn edrych yn ddyfnach ar yr adborth hwn ac yn gweithio gyda darparwyr.

Thema allweddol a gynhwyswyd ar draws yr holl bolisïau, strategaethau ac ymatebion i’n hymgysylltiad â rhanddeiliaid oedd yr angen i barhau gyda gallu ariannol wrth wraidd ein gwasanaethau. Byddwn yn

DRAFT

parhau i flaenoriaethu hyfforddiant a chydweithio gyda sefydliadau. Enghraifft ddiweddar yw'r gwaith rydym wedi'i gychwyn ar draws Gwent gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, mae adeiladu'r berthynas hon wedi rhoi mynediad am ddim i hyfforddiant i bob un o'n darparwyr, a fydd yn ei dro yn ein cynorthwyo i gadw staff ac yn y pen draw yn darparu gwasanaeth trylwyr i bob defnyddiwr gwasanaeth. Bydd ein gwasanaeth Cyngor ar Bopeth a gomisiynwyd ar y cyd yn parhau i ddarparu lefel uchel o gefnogaeth a chymorth i bawb sydd ag anghenion dyled a chymorth incwm i ddarparu ateb cynaliadwy hirdymor yn hytrach na datrysiadau tymor byr sy'n oedi'r anochel. Rydym hefyd yn gweithio gyda darparwyr i ddarparu hyfforddiant camddefnyddio sylweddau ar gyfer cyflwyno Naloxone

## 4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

### 4a Rhanddeiliaid yr Ymgysylltwyd â Hwy

Er mwyn deall ein blaenoriaethau a nodi anghenion yn ein gwasanaethau rydym wedi ymgysylltu â llawer o wahanol randdeiliaid. Oherwydd cyfyngiadau o amgylch y pandemig a chyfyngiadau amser, gwneir y rhan fwyaf o'r ymchwil trwy holiaduron a chyfweliadau Rhanddeiliaid dros MS Teams neu dros y ffôn. Mae peth ymgynghori wyneb yn wyneb wedi digwydd yn benodol gyda gwasanaethau mewnol, Datrysiadau Tai a Thimau Tai Argyfwng.

Yn ogystal ag ymgynghori gyda'n Tîm Strategaeth Tai yn y broses o ddatblygu'r Strategaeth, ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid a ganlyn yn ystod y cyfnod.

- Iechyd
  - GIG
    - Gwasanaeth Meddyg Teulu – Uwch Ymarferydd Nyrsio
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
    - Rheolwr Tai Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
    - Arweinydd Tîm GSSMS
- Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili
  - Rheolwr Tîm - Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol (CDAT)
  - Rheolwr Tîm Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol a Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau (cyfweliad)
  - Gweithiwr Cymdeithasol/Uwch Ymarferydd Digartrefedd 16+ (cyfweliad)
- Gwasanaeth Prawf Cymru
  - Cydlynydd Llwybr Llety Gwent
- Byrddau Partneriaeth VAWDASV
- Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau
  - Rheolwr Tîm Camddefnyddio Sylweddau
- Grant Plant a Chymunedau
  - Rheolwr Tîm Dechrau'n Deg (arolygon a chyfweliadau)
- Darparwyr – gwybodaeth sy'n bodoli eisoes megis Asesiad Ansawdd Lleol
  - Age Cymru Gwent
  - GDAS - Allgymorth Pendant
  - Homestart (cyfweliad)
  - Pobl Ifanc Llamau
  - Cam-drin Domestig Llamau (cyfweliad)
  - Mind (Cyfweliad)
  - Grŵp Pobl (Arolwg a Chyfweliadau)
  - Platfform (Arolwg a Chyfweliadau)
  - St Vincents (Cyfweliad)
- Landlordiaid
  - Tai Caerffili
  - Unedig Cymru
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Grant Cymorth Tai – Holiaduron Ymadael yn ogystal â chyfweliadau
  - Galwyd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth presennol a blaenorol dros y ffôn/WhatsApp (cynigir FaceTime)

- Gofalwyr a theuluoedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Grant Cymorth Tai
    - Galwyd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth gofalwyr a theuluoedd presennol a blaenorol dros y ffôn/WhatsApp (cynigir FaceTime)

Cynhelir trafodaethau ynghylch unrhyw beth penodol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn uniongyrchol gyda rhanddeiliaid i gyflawni ymateb cydweithredol, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a nodi sut y gallwn wella gwasanaethau. Mae’r rhan fwyaf o’r pwyntiau a godir drwy’r strategaeth yn dod yn uniongyrchol gan randdeiliaid, fel arfer drwy ein sgyrsiau â nhw sy’n deillio o’u hegwyddorion neu flaenoriaethau eu hunain.

Nod y strategaeth yw gweithio ar y cyd ag egwyddorion yr holl randdeiliaid eu hunain ac yn y pen draw ein nod ar y cyd yw atal digartrefedd a chefnogi pob unigolyn.

## 4b. Adborth rhanddeiliaid

Yn ogystal â'r holiadur i randdeiliaid a gwblhawyd trwy ein gwefan yng Ngwent [www.gwenthousingsupport.co.uk], rydym wedi cynnal cyfweliadau ychwanegol â rhanddeiliaid allweddol lle na chwblhawyd arolwg. Mae crynodeb o'r materion a'r canfyddiadau allweddol ynghyd â'r gwelliannau a awgrymwyd ac unrhyw sylwadau eraill isod

Diffyg

- stoc tai, yn benodol eiddo un a dwy ystafell wely,
- stoc fforddiadwy neu mewn lleoliad addas, yn enwedig o amgylch stoc tai cymdeithasol, lleoliadau sydd ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
- llety â chymorth i bobl
    - sy'n gweithio
    - gyda Diagnosis Deuol a/neu Llety Dros Dro lleihau niwed
    - gyda phroblemau caethiwed a chaethiwed â salwch meddwl a diffyg pellach i'r rhai sydd ag anghenion caethiwed, iechyd meddwl ac anghenion fforensig
- cynlluniau a arweinir gan ymatal
- darpariaeth lloches nos amgen
- llety â chymorth rhyw benodol i fenywod â thrawma lluosog gan gynnwys cam-fanteisio
- llety yn gyffredinol at ddefnydd cadeiriau olwyn, cyfyngiadau oedran ar ofal ychwanegol a llety a reolir gan warden a fyddai'n addas
- opsiynau tai wrth symud o loches i lety
- ystafell argyfwng i bobl ifanc

Bwlch mewn

- Llety ar gyfer asesu digartrefedd i rai dan 18 oed
- Cefnogaeth emosiynol
- Llety Sector Rhentu Preifat ar gyfer y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth
- Graddfa a chwmpas staff Cam-drin Domestig mewn Datrysiadau Tai
- Gwasanaethau ar gyfer y bobl ifanc hynny mewn llety â chymorth oherwydd yr effaith ar eu cais digartrefedd
- Staffio; ei chael yn fwyfwy anodd denu a chadw staff yn y maes cymorth.

Ystyried sut

- yn fwriadol, y bydd angen blaenoriaethol a chysylltiadau lleol yn effeithio ar y dinasyddion anoddaf eu lletya
- Cost rhentu uchel, yn benodol i’r Sector Rhentu Preifat (SRhP)
- SRhP dim ond yn derbyn “Aeddfed neu Broffesiynol” a'r ffioedd ychwanegol nad ydynt yn fforddiadwy
- Arwahanrwydd cymdeithasol a grëwyd gan COVID-19, toriadau Credyd Cynhwysol ac effeithiau hynny ar Iechyd Meddwl

- Mwy o ddewis o leoliad ar gyfer Tai â chymorth i deuluoedd ifanc agored iawn i niwed sy'n symud allan o'r uned ddigartref ac sydd angen cymorth mwy dwys.

Adborth Cadarnhaol: Dywedodd 55% ei fod wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf

- Mwy o gydweithio ar draws y Grant Plant a Chymunedol a Grant Cymorth Tai ar draws y rhanbarth – mae gan Gaerffili lefel uchel o hyn ond yn ansicr o feysydd eraill.
- Yn cysylltu ar draws y rhanbarth â Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar
- “Cynyddu Llety â Chymorth Gwasgaredig neu fodel STAR – gall pobl sydd angen lefelau uchel o gymorth barhau i chwilio am waith heb golli’r cymorth oherwydd y costau”
- Soniodd llawer o ymatebwyr eu bod bellach yn colli’r staff Seicoleg a oedd wedi’u lleoli ar draws y gwasanaethau tai argyfwng, “fel yr oeddent yn dechrau gwneud popeth yn well daeth i ben”
- Cyflwyno arbenigwr Iechyd a Diagnosis Deuol yn cael eu hadnabod
- Mae Dechrau'n Deg yn adrodd ei fod yn gweithio'n agos gyda Cefnogi Pobl yn strategol ac ar y rheng flaen.
- Perthnasoedd cadarnhaol Cefnogi Pobl a Thai oherwydd perthnasoedd unigol yn hytrach na'r gwasanaethau yn eu cyfanrwydd
- Lefel uchel o fentrau a ariennir gan Grant Cymorth Tai i helpu i gael gwared ar rwystrau i iechyd a lles mewn perthynas â’u hanghenion iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd
- Mae cyfarfodydd rhwydwaith yn caniatáu i ddarparwyr Grant Cymorth Tai rannu gwybodaeth a thrafod anghenion, sy'n hanfodol ar gyfer cyfeirio a chydweithio
- Gweithio gyda Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Arbenigol Gwent a gwasanaethau Cysgwyr Allan, hefyd Gwasanaeth Alcohol Cyffuriau Gwent i wella dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael a gwybod pwy a sut i gael mynediad at wasanaethau.
- Dywedodd Anabledd Dysgu ac Anabledd Corfforol Nam ar y Synhwyrau fod ganddynt berthynas wych gyda Chefnogi Pobl a gwasanaethau a gomisiynir gan y tîm yn ogystal â chydweithwyr Cyngor Tai.
- Mae Llwybr Llety’r Gwasanaeth Prawf wedi’i gynnal drwy gydol y pandemig gan wasanaethu’r cleientiaid ag un o’r gwasanaethau mwyaf datblygedig, mae cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn hanfodol i barhau i gynnig y gwasanaeth gorau posibl

Adborth Negyddol a meysydd i'w gwella, dywedodd 45% na fu fawr ddim gwelliant, os o gwbl

- Dywedodd rhai bod hyn oherwydd COVID-19 a gweithio gartref
- Mae dull COVID-19 ehangach wedi bod yn niweidiol i grwpiau defnyddwyr gwasanaeth eraill, lleoliadau gwely a brecwast yn llawn a’r angen am leoliadau y tu allan i’r sir.
- Nid yw timau argyfwng Iechyd Lleol yn ymateb mewn ffordd ddefnyddiol i'n staff gysylltu am gymorth pan fo un o'n tenantiaid mewn argyfwng. Mae hwn wedi bod yn batrwm hirdymor – timau argyfwng yn gofyn i ni ffonio’r heddlu, yr heddlu’n gofyn i ni ffonio’r tîm argyfwng.
- Fel darparwr trydydd sector, gall ein llais mewn cyfarfodydd sy’n cynnwys Timau Iechyd Meddwl Caerffili fod yn gyfyngedig ac nid yw'n cael ei werthfawrogi. Mae’r gweithwyr sydd gennym yn y timau hynny a’r ysbytai yn helpu gyda hyn ar lefel leol ond nid yw hyn bob amser yn treiddio allan ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda phobl yn cael eu cefnogi yn y gymuned gan ein gweithlu ehangach.

Gwelliannau a awgrymir

- Negeseuon e-bost canolog ar gyfer adrannau (mae gan Cefnogi Pobl e-bost tîm yn barod)
- Timau amlddisgyblaethol/ffrydiau ariannu a rennir neu ar y cyd
- Gallu staff Cymorth Cysylltiedig â Thai nad ydynt yn arbenigol i adnabod VAWDASV

DRAFT

- Fforwm amlasiantaethol/amlddisgyblaethol dan arweiniad Cefnogi Pobl i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu llwyddiannau parhaus. Adroddiad cynnydd blynyddol neu hanner blwyddyn a'r gallu i adnabod anghenion cymorth ar draws y Fwrdeistref Sirol i'w hadolygu.
- Gwell ffyrdd o rannu gwybodaeth
- Cynyddu cefnogaeth aml-asiantaeth i'r rhai sydd â gofynion arbenigol

Adborth ychwanegol

- Cynnydd yn nifer y plant ag anghenion meddygol datblygiadol neu gymhleth sy'n dod i'r amlwg gyda phrinder cartrefi addas yn y Fwrdeistref Sirol mewn lleoliadau sy'n addas, yn agos at gymorth teulu.
- Nifer cynyddol o deuluoedd sy'n cael trafferth gyda chyllid a thai fforddiadwy o'r maint cywir
- Grant Cymorth Tai i hwyluso gweithdai / cyfarfodydd rhwng darparwyr trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd / Timau Iechyd Meddwl Cymunedol lleol / Timau Triniaeth Gartref ac ati, i feithrin cyd-ddealltwriaeth well o arbenigedd a manteision ymatebion a arweinir gan unigolion i'r bobl yr ydym yn eu cefnogi.
- Partneriaeth heb ei hadfer o bandemig o hyd ac mae dulliau adweithiol yn parhau.
- Angen dychwelyd at y model ymyrraeth gynnar lawn i atal y senario drysau troi
- Cynyddu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau wrth adnabod pa fath o gymorth sydd fwyaf defnyddiol wrth symud o ddigartrefedd yn hytrach na chymryd yn ganiataol mai'r ystod draddodiadol neu gyfredol o gymorth sydd ei angen.
- “Hoffwn ddiolch i Cefnogi Pobl am eu gwaith rhagorol a pharhaus yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed yn ystod y pandemig - er gwaethaf y llu o heriau y maent wedi'u hwynebu.”

Cyfleoedd rydym yn eu hystyried

- Sut i drosi neu adnewyddu stoc bresennol
- Sut i gynyddu cyfranogiad Sector Rhentu Preifat
- Cynyddu cyfathrebu gyda phob landlord
- Datblygu cymunedau gyda chymysgedd o genedlaethau
- Cynyddu cefnogaeth yr holl randdeiliaid – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael ar y cyd â'r cynnydd mewn materion Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, mynd i'r afael â'r anghenion cymhleth a mabwysiadu ymagwedd fwy cyfannol gan gynnwys gofal lliniarol.

Hefyd yn defnyddio dogfennau fel Gwersi o'r Rheng Flaen Cymorth i hysbysu ein penderfyniadau comisiynu

- gan ystyried llwythi achosion gweithwyr cymorth,
- gan sicrhau eu bod ar y lefelau cywir i gynnwys cyfarfodydd rhithiol ac wyneb yn wyneb
- eglurder ynghylch y gwasanaethau sydd eu hangen arnom i ddiwallu'r angen wrth weithio mewn ffordd ar ôl y cyfnod clo
- rydym yn edrych ar gydleoli nifer o staff ar draws datblygiadau
- cael swyddfeydd sydd ar gael i'r holl staff waeth pwy yw eu cyflogwr

Holiadur Rhanddeiliaid Gwent yn Atodiadau 2, 3 a 4

## 5. Asesiadau Effaith

Mae gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili asesiad effaith integredig a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau gwybodus ac effeithiol wrth sicrhau cydymffurfiaeth ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth o Ddisgwyliadau Cyfreithlon ac Egwyddorion Gunning

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth gwblhau'r Asesiad Effaith. Mae dolen i'r ddogfen wedi'i chynnwys yma {"Asesiad Effaith Rhaglen Cymorth Tai"}

## 5a Proses Asesu Effaith

